**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: DC/JMHSC/02675/25

Kirsty Williams – Cadeirydd
Suzanne Rankin – Prif Weithredwr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

09 Rhagfyr 2025

Annwyl Kirsty a Suzanne

Mae'r llythyr hwn yn dilyn y Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus a gynhaliwyd gydag aelodau o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 13 Tachwedd 2025. Diolch am eich presenoldeb chi a'ch timau yn y cyfarfod. Roedd yn gyfle i dynnu sylw at y gwaith rydych chi'n ei gyflawni ar gyfer y cymunedau rydych chi'n eu gwasanaethu. Roeddwn yn ddiolchgar am y pecyn tystiolaeth a ddarparwyd cyn y cyfarfod; mae'r pecyn hwn yn rhan bwysig o gofnod y cyfarfod. Mae recordiad o'r cyfarfod ar gael drwy ddilyn y ddolen hon Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae'r llythyr hwn yn nodi fy myfyrdodau o'r cyfarfod; byddwn yn parhau i adolygu'r themâu hyn yn ein cyfarfodydd adolygu rheolaidd.

Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhan hanfodol o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddwyn sefydliadau'r GIG i gyfrif mewn modd tryloyw am gyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau – gan ganolbwyntio'n benodol ar gyflawni gweithredol yn ystod y flwyddyn, sefydlogrwydd ariannol, ansawdd, diogelwch a rheoli risgiau allweddol.

Roedd y cyfarfod yn cydnabod sawl maes lle mae cynnydd wedi'i wneud neu lle mae'r bwrdd iechyd yn perfformio'n dda ac rwyf am ddiolch i chi a'ch staff ar draws y sefydliad, sy'n parhau i ddarparu gofal o ansawdd uchel o dan bwysau sylweddol. Cydnabuwyd ymdrechion y bwrdd iechyd i gynnal perfformiad mewn meysydd gwasanaeth penodol ochr yn ochr â nifer o heriau ehangach.

Roedd y rhan fwyaf o ffocws y cyfarfod ar yr heriau difrifol a arweiniodd at godi statws uwchgyfeirio'r bwrdd iechyd i lefel 4, sef pryderon sy'n ymwneud â pherfformiad, ansawdd, pwysau ariannol, diwylliant, a materion gwasanaeth gweithredol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gofynnais am sicrwydd gan y Bwrdd ynglŷn â'r sefyllfa ariannol gan fy mod yn bryderus bod y Bwrdd yn rhagweld diffyg diwedd blwyddyn o £56.2m ar gyfer 2025/26, ac nid oes modd cefnogi hyn o safbwynt Llywodraeth Cymru. Fe wnaethoch chi dynnu sylw at y ffaith bod gan y Bwrdd drosolwg sylweddol ar y maes hwn gyda gwell gafael a rheolaeth dros faterion gweithredol i gefnogi sefyllfa well.

Fe wnaethoch chi dynnu sylw at sawl rheswm dros y sefyllfa ariannol gan gynnwys sefydlu'r gweithlu, a thwf cyffredinol dros y blynyddoedd diwethaf o'i gymharu â byrddau iechyd eraill. Mae yna hefyd feysydd sydd dan bwysau, fel darparu gwasanaethau trydyddol a gofal iechyd parhaus, lle mae'r bwrdd iechyd wedi gweld y cyfraddau twf trydydd uchaf yng Nghymru ers 19/20 ac un o'r cyfraddau twf uchaf gyda thwf o 12% o 24/25 i 25/26.

Mae'r sefyllfa ariannol yn gofyn am waith sylweddol i leihau'r diffyg a gwella ansawdd, effeithlonrwydd a chynhyrchiant i gyrraedd y targed. Byddwn yn disgwyl i'r bwrdd iechyd weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a chyflwyno map trywydd ar gyfer adferiad ariannol sy'n nodi'r camau y bydd y Bwrdd yn eu cymryd yn ystod y misoedd nesaf i adfer y sefyllfa ariannol, gan gynnwys y dull arfaethedig o gytuno ar y cynllun gwasanaethau clinigol a'r proffil gweithlu gofynnol erbyn diwedd mis Mawrth 2026.

Gan gydnabod yr effaith ar gleifion, aeth y cyfarfod i'r afael â'r perfformiad is na'r disgwyl mewn gofal a gynlluniwyd a diagnosteg. Mae'r bwrdd iechyd ar hyn o bryd yn gweithio i leihau amseroedd aros hir, gan fynd i'r afael yn benodol â'r ôl-groniad mewn profion diagnostig. Y targed cenedlaethol ar gyfer hyn yw uchafswm aros o 8 wythnos. Mynegodd y Bwrdd lefel uchel o hyder y byddai'r holl arosiadau hir am brofion diagnostig yn cael eu clirio ac y byddai pob claf sy'n aros ers mwy na 104 wythnos yn cael eu gweld erbyn diwedd mis Mawrth 2026, ar wahân i nifer fach o gleifion asgwrn cefn cymhleth. Trafodwyd perfformiad yn erbyn targedau canser allweddol hefyd, a'r angen am welliant parhaus i gyrraedd y targed canser sengl 62 diwrnod. Cydnabuwyd perfformiad y bwrdd iechyd yn y maes hwn yn ogystal ag ar draws y llwybrau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Dros y misoedd nesaf, rwy'n disgwyl i'r bwrdd iechyd gyflymu'r gwaith o weithredu'r cynllun gwella ar gyfer gofal a gynlluniwyd, gan ganolbwyntio ar leihau amseroedd aros hir a'r ôl-groniad mewn gwasanaethau diagnostig i gyrraedd targedau cenedlaethol gydag arweinyddiaeth ac ymgysylltiad clinigol cryf.

Mae'r cynnydd diweddar o ran gweithio ar draws y de-ddwyrain, gyda'ch byrddau iechyd cyfagos, yn galonogol ac mae angen parhau i ganolbwyntio ar hyn. Bydd hyn yn arwain at well gofal i bawb yn y rhan hon o Gymru.

Roedd cyfran sylweddol o'r cyfarfod yn canolbwyntio ar adolygiadau a gomisiynwyd yn y bwrdd iechyd i bractisau o fewn theatrau Ysbyty Athrofaol Cymru, cardioleg, gwasanaethau iechyd meddwl ac eraill. Nodwyd bod themâu tebyg trwy'r holl adroddiadau sy'n cynnwys methiannau sylfaenol mewn diogelwch clinigol a diwylliant staff ac sy'n gofyn am ddychwelyd at egwyddorion sylfaenol ar gyfer staffio diogel. Rwy'n disgwyl i'r Bwrdd oruchwylio cynllun gweithredu cynhwysfawr i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adolygiadau hyn ac mewn llythyrau agored gan eich meddygon ymgynghorol, gan gyflwyno adroddiadau rheolaidd ac agored i Lywodraeth Cymru.

Bydd angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod systemau cadarn ar waith sy'n caniatáu i feddygon ymgynghorol a chlinigwyr eraill godi pryderon yn ddiogel a heb ofni cosb. Rhaid i'r systemau hyn alluogi staff i godi eu llais, a'u cefnogi'n weithredol i gyfrannu at atebion. Mae gan feddygon ymgynghorol ddyletswyddau proffesiynol clir o dan Arfer Meddygol Da y Cyngor Meddygol Cyffredinol a chanllawiau cysylltiedig i weithio o fewn strwythurau rheoli, cymryd rhan adeiladol mewn gwella gwasanaethau, a chodi pryderon trwy’r sianeli priodol. Rhaid i'r bwrdd iechyd greu amgylchedd lle gellir cyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn effeithiol a lle mae clinigwyr yn cael eu hannog a'u cefnogi i chwarae rôl ragweithiol wrth fynd i'r afael â'r materion y maent yn eu nodi.


Fel rhan o'ch sylwadau i gloi, myfyriodd aelodau'r Bwrdd ar yr heriau sy'n wynebu'r sefydliad ac roedd eich ymrwymiad i fynd i'r afael â'r materion hyn yn amlwg. Mae angen i ni sicrhau y gallwn eich cefnogi i wneud hynny drwy’r broses uwchgyfeirio lefel 4.

I grynhoi, roedd hwn yn gyfarfod heriol. Hoffwn gydnabod bod y Bwrdd yn gwneud cynnydd da mewn llawer o feysydd a bod y bwrdd iechyd yn darparu gofal rhagorol i filoedd o gleifion bob mis. Nid oedd modd inni drafod hynny mewn manylder. Canolbwyntiodd y cyfarfod hwn ar y meysydd hynny sydd angen eu gwella yn gyflym. Meysydd yw’r rhain lle rwy’n disgwyl i’r Bwrdd wella’r oruchwyliaeth a’r arweinyddiaeth – mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ganddynt well gafael a rheolaeth arnynt, o safbwynt gweithredol ac yn ariannol i leihau'r diffyg ariannol. Rwy'n disgwyl i chi gyrraedd y targedau gofal a gynlluniwyd rydw i wedi'u gosod a chynnal eich perfformiad ym meysydd canser a gofal brys a gofal mewn argyfwng.

Mae gan y Bwrdd lawer i’w wneud o ran llywodraethu o ansawdd a chreu amgylchedd sy'n cefnogi arweinyddiaeth glinigol ar bob lefel ac yn caniatáu i staff deimlo'n hyderus i godi eu llais, ac mae'n rhaid inni weld cynnydd dros y misoedd nesaf.

Yn olaf, wrth i chi gynllunio ar gyfer y dyfodol, rwy'n disgwyl cynllun clinigol cadarn sy'n ysgogi penderfyniadau ac yn cyd-fynd â'r angen i ad-drefnu gwasanaethau ar draws eich ystad.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care